

At sylw Gweinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 hyd at 31/03/2023

Yn unol â'r dyletswyddau dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad blynyddol **Bro Morgannwg** ar gyfer **2022-23**.

<p>Y camau sydd wedi'u cymryd i hyrwyddo teithio llesol</p>	<p>Gosodwyd cyfleusterau storio beiciau mewn lleoliadau ledled y Fro y gofynnwyd amdanynt gan Gyngorau Cymuned ac aelodau'r cyhoedd.</p> <p>Gwnaed gwelliannau i gerddwyr mewn gwahanol leoliadau yn y Fro gan gynnwys cyrbau isel, palmentydd botymog, gwaredu rhwystrau ac ehangu'r droedffordd.</p> <p>Parhaodd swyddogion i weithio gydag ysgolion i ysgrifennu eu Cynlluniau Teithio Llesol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cerdded, beicio a sgwtio i'r ysgol bob dydd, gan leihau tagfeydd a gwella diogelwch wrth gathiau'r ysgol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd rhan yng Ngrŵp Siarter Staff Iach y Fro, gan weithio gyda'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.</p> <p>Mae'r Cyngor yn diweddarau ei wefan Teithio Llesol (TLI) yn rheolaidd ac mae'n parhau i'w hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Transportation/Active-Travel-and-Safe-Routes-in-Communities-Projects.aspx</p> <p>Mae'r Cyngor yn cyhoeddi clipiau TLI byr yn rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon TLI a gofyn am awgrymiadau a sylwadau gan y cyhoedd. Mae'r clip llawn ar dudalen we Bro Morgannwg - Teithio Llesol (valeofglamorgan.gov.uk)</p> <p>Mae'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gydag Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn rhannu arfer da a gwybodaeth. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob 6 wythnos gyda'n cynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru/Llywodraeth Cymru i drafod prosiectau presennol a rhai'r dyfodol.</p> <p>Darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 5 ysgol arall yn y Fro.</p>
---	--



Ysgol Sant Curig

Mae'r Cyngor yn cynnig cyrsiau Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol (HBSC) Lefelau 1 a 2 i bob ysgol gynradd ar gyfer ei disgyblion Blwyddyn 6 a'r flwyddyn ariannol hon, cynhaliodd bum cwrs ar draws yr awdurdod ar gyfer plant 9-11 oed, yn ystod gwyliau'r ysgol ym mis Gorffennaf, mis Awst a mis Chwefror. Galluogodd hyn 656 o fyfyrwyr yn 22/23 i ddechrau eu HBSC, gan ragori ar ein ffigur targed, gyda 533 o'r disgyblion hyn yn cyrraedd Lefel 1 a 354 yn mynd ymlaen i basio eu Lefel 2.

Cynigiwyd hyfforddiant i gerddwyr ifanc, gan gynnwys Kerbcraft, i ysgolion cynradd trwy gydol 22/23 eto a gyda chymorth gwirfoddolwyr, cafodd ei gyflwyno i fwy na 622 o blant.



Parhaodd 13 ysgol â'u her [Cerdded Unwaith yr Wythnos \(WOW\) Living Streets](#) i annog TLI i'r ysgol o oedran ifanc.

Gosodwyd gorsafoedd pwmpio/atgyweirio beiciau mewn lleoliadau pellach ar draws y Fro, gan gynnwys Llan-faes ac Aberogwr.


Gwaredwyd rhwystrau ar lwybrau cerdded/beicio lle nodwyd y byddai hynny'n gwella mynediad ar gyfer beiciau, beiciau wedi'u haddasu, sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn.

Y camau a gymerwyd er mwyn sicrhau llwybrau TLI diogel a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig.

Disgwylir i bob cynllun datblygu newydd ym Mro Morgannwg gynnig seilwaith TLI ac mae swyddogion yn gwneud sylwadau ar yr holl gynlluniau teithio sy'n cael eu paratoi drwy'r Broses Gynllunio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Disgwylir i bob datblygiad gynnig seilwaith TLI naill ai drwy waith priffyrdd Adran 278/38 a/neu gyllid Adran 106.

Yn ogystal, yn 22/23 rhoddwyd y tir o flaen The Gathering Place, Sain Tathan i'r Cyngor i'w alluogi i adeiladu cyswllt cerdded coll i gysylltu â'r

	<p>seilwaith presennol yn yr ardal. Bydd y gwaith adeiladu hwn yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn ariannol 23/24.</p> <p>Defnyddir y Gronfa Dyrannu TLI Graidd, Arian Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ac Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy Adran 106 i wella llwybrau TLI (seilwaith newydd, cyrbau isel, palmentydd botymog, croesfannau) a darparu cyfleusterau storio beiciau a gorsafoedd atgyweirio beiciau mewn ysgolion ac yn y Sir.</p> <p>Cymeradwywyd a gweithredwyd y Cais Ffyniant Gyffredin ar gyfer Doc Beiciau Brompton yn Llanilltud Fawr.</p> 
<p>Costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer llwybrau a chyfleusterau TLI newydd a gwelliannau i lwybrau TLI presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gafodd eu gwneud yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<p>Defnyddiwyd Grant Craidd TLI Llywodraeth Cymru sef £645,000 ym mlwyddyn ariannol 22/23 ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygiadau i ddyluniad manwl llwybr TLI ar hyd Station Road, y Rhws ac i ariannu'r gwaith o adeiladu llwybr defnydd a rennir ar hyd Porthkerry Road a Fontygary Road. • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI rhwng y Barri a Dinas Powys • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI rhwng y Rhws a Sain Tathan • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI o'r A48 i Dregolwyn • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI o'r A48 i Lan-gan • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI o Lôn Pum Milltir, Sain Nicolas i Groes Cwrlwys • Dylunio llwybr TLI o Waycock Cross i Faes Awyr Caerdydd • Dylunio cysyniad ar gyfer llwybr TLI o'r Bont-faen i Ystradowen • Darparu llochesi a chyfleusterau storio beiciau/sgwteri mewn ysgolion • Darparu cyfleusterau parcio beiciau yng nghanol trefi/pentrefi • Gosod cyrbau isel, palmentydd botymog a gwelliannau i lwybrau. <p>Arian TLI blwyddyn ariannol 22/23 - £282,260 i gwblhau dyluniad manwl o'r llwybr TLI drwy Eglwys Brewys. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys pedwar safle bws newydd a gwaith gwella trafndiaeth gynaliadwy cysylltiedig a chlirio'r safle i baratoi ar gyfer gwaith adeiladu yn 23/24.</p> <p>Arian TLI blwyddyn ariannol 22/23 - £104,995 fel arian cyfatebol ar gyfer troedffordd/beicffordd defnydd a rennir ar hyd Porthkerry Road a Fontygary Road yn y Rhws. Defnyddiwyd £418,484 o arian trafndiaeth gynaliadwy adran 106 hefyd ar gyfer y gwaith hwn.</p>

Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 22/23 - £327,900 ar gyfer Prosiect Dylunio Cymunedol Ysgol Gynradd Fairfield. Derbyniwyd arian i weithredu'r cynllun stryd ysgol cyntaf ym Mro Morgannwg, a oedd yn cynnwys gwelliannau i gerddwyr, gosod gardd law a datblygu Gorchmynion Rheoli Traffig.



Arian Ffyniant Gyffredin blwyddyn ariannol 22/23 - £63,359 i osod Doc Llogi Beiciau Brompton yng Nghyfnwidfa Llanilltud Fawr i gynorthwyo gyda theithio amlfoddol yn yr ardal.

Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106 blwyddyn ariannol 22/23 - £72,700 i gwblhau gwaith llwybr y tu allan i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn.

Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106 blwyddyn ariannol 22/23 - £106,282 ar gyfer llwybr troed newydd i gael mynediad i ardal chwarae Caerleon Road, Dinas Powys.

Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106 blwyddyn ariannol 22/23 - £129,089 i gwblhau gwelliannau ar Murch Road a chyfleusterau croesi.

Arian Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106 blwyddyn ariannol 22/23 - £24,522.43 ar gyfer cynllun goleuadau ar hyd Frampton Lane, Llanilltud Fawr.

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau TLI newydd a gwelliannau i llwybrau TLI presennol a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu neu eu hariannu'n rhannol gan drydydd partïon.</p>	<p>Blwyddyn ariannol 23/24, £645,000 (TLI Craidd Llywodraeth Cymru)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylunio llwybr TLI – Croes Cwrlwys i Sain Nicolas • Dylunio llwybr TLI – Sili i Cosmeston • Dylunio llwybr TLI o Waycock Cross i Faes Awyr Caerdydd • Gwaith ymchwilio ar gyfer llwybr TLI - o'r Barri i Ddinas Powys • Cyfleusterau storio beiciau mewn trefi, pentrefi ac ysgolion • Gwelliannau i'r Map Rhwydwaith TLI (cyrbau isel a phalmentydd botymog) <p>Cronfa TLI blwyddyn ariannol 23/24 – £2,433,231 - Llwybr Teithio Llesol Eglwys Brewys. Adeiladu llwybr cerdded/beicio ar wahân.</p> <p>Cronfa TLI blwyddyn ariannol 23/24 – £679,900 - Station Road, y Rhws. Adeiladu llwybr defnydd a rennir sy'n cysylltu'r pentref â'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth.</p> <p>Cronfa TLI blwyddyn ariannol 23/24 – £336,074 - Gwenfô. Gosod croesfan twcan yng Nghastell Walston, gwelliannau i gerddwyr trwy bentref Gwenfô a dylunio cyswllt TLI coll ar hyd Port Road.</p> <p>Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 23/24 – £53,006 ar gyfer Prosiect Dylunio Cymunedol Ysgol Gynradd Fairfield. Derbyniwyd arian i gwblhau gwaith stryd ysgol ar Dryden Road a gwneud mân welliannau i Tennyson Road.</p> <p>Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau blwyddyn ariannol 23/24 - £50,000 ar gyfer adroddiad dichonoldeb ar strydoedd ysgol y dyfodol yn y Fro. I gynnwys treialon mewn tair ysgol.</p> <p>Mae arian Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106 ar gael yn Sili, y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Sain Nicolas a'r Barri i alluogi gwelliannau TLI.</p> <p>Cronfa Ffyniant Gyffredin blwyddyn ariannol 23/24 - £250,000 i ehangu cynllun llogi beiciau OVO i'r Barri.</p>
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Defnydd a Rennir 	<p>150m o droedffordd o flaen Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn wedi'i ariannu drwy gyfraniadau Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106.</p> <p>90m o droedffordd newydd o flaen maes chwarae Caerleon Road gyferbyn â Criccieth Court, Dinas Powys wedi'i ariannu drwy gyfraniadau Trafnidiaeth Gynaliadwy adran 106.</p>

	<p>95m - beicffordd/troedffordd a rennir 3.5m newydd, yn rhedeg ar hyd blaen y safleoedd ar hyd Subway Road, y Barri.</p> <p>1400m Brocastell i Ben-y-bont ar Ogwr - beicffordd/troedffordd a rennir 3-3.5m newydd ar hyd yr A48 sy'n cysylltu safle cyflogaeth newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru ym Mrocstell â Phen-y-bont ar Ogwr ac sy'n cysylltu â llwybrau TLI eraill a gwblhawyd yn ddiweddar. Mae'r llwybr yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beicffordd/troedffordd a rennir 3.5m o led gyda sribed clustogi glaswellt 1-1.5m ar gyfanswm hyd o ~ 1.4km neu 1400m. • Croesfan Twcan a reolir newydd ar draws yr A48 • Dau loches bws newydd gyda chyrbau mynediad uchel a seilwaith cysylltiedig • Adnewyddu/uwchraddio cyffordd goleuadau Fords yn llwyr gyda seilwaith newydd ac ymgorffori nifer o groesfannau Twcan â goleuadau. <p>250m Fferm Darren, y Bont-faen - cyswllt i feicwyr/cerddwyr o'r A48 drwy'r datblygiad preswyl newydd i gysylltu â'r ysgol newydd a Llantwit Major Road. Cam 1 - eisoes wedi'i adeiladu, Cam 2 - yn parhau (750m).</p>
<p>Hyd y llwybrau wedi'u gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Defnydd a Rennir 	<p>210m VALE-PEN-025B Parc Sant Cyres – gwelliannau i gerddwyr i gysylltu ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff ac Ysgol Gyfun Sant Cyres.</p> <p>780m VALE-SPR-009A gwelliannau i'r troedffyrdd ar Murch Road a Murch Crescent, Dinas Powys.</p> <div data-bbox="593 1523 912 1944" data-label="Image"> </div> <p>825m VALE-SPR-003H ehangu'r droedffordd i led defnydd a rennir / gwelliannau i'r droedffordd, gwelliannau i gerddwyr a beicwyr ar hyd Porthkerry Road, Ffordd y Rhws a Fontygary Road yn y Rhws.</p> <p>490m VALE-PEN-020A gwelliannau i gerddwyr a beicwyr ar hyd Dryden Road ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield.</p>

270m VALE-BARRY-Future-036E Vere Street – gwelliannau i gerddwyr fel bod y llwybr yn cydymffurfio â chanllawiau TLI.

270m VALE-BARRY-Future-036E Main Street – gwelliannau i gerddwyr fel bod y llwybr yn cydymffurfio â chanllawiau TLI.

516m VALE-BARRY-035B St Brides Way, y Barri – gwell cyfleusterau i gerddwyr yma drwy gulhau 3 cyffordd a gosod cyrbau isel a phalmentydd botymog.



Cyfleusterau TLI newydd a gwell

Blwyddyn ariannol 22/23 - darparwyd cyfleusterau storio sgwteri a beiciau mewn 5 ysgol arall yn y Fro (Cronfa TLI Graidd).



Ysgol Gynradd Tregatwg

Darparwyd cyfleusterau storio beiciau mewn lleoliadau yn y Fro – canolfan siopa'r Stryd Fawr, Pod Bwyd St Lukes Avenue, Penarth, Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff, Camms Corner Dinas Powys a Jacksons Bay.



Cafodd sawl mainc eu gosod/disodli yn y Barri a Sain Tathan ar lwybrau TLI presennol i greu manau gorffwys priodol.

Gwaredwyd rhwystrau ar lwybrau TLI presennol – Llwybr Ash, Dinas Powys a Colcot Road, y Barri.

Gosodwyd seddi a chelf stryd i annog cerdded i safle newydd Ysgol Sant Baruc ac ardal glan y dŵr.



Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Gaeaf 2022 - Lansiodd y Cyngor gam 3 y cynllun Beicio i'r Gwaith ar gyfer gweithwyr sy'n galluogi prynu beiciau hyd at werth o £3500. Prynwyd 46 beic gan weithwyr drwy ildio cyflog, ar gyfanswm cost o £53,480.



Cynhaliwyd sesiwn Dr Bike ym Mharc Gwledig Cosmeston ym mis Mehefin 2022 fel rhan o Wythnos y Beic.

Mae cais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi ei gymeradwyo ar gyfer 23/24 i ehangu'r cynllun llogi e-feiciau i'r Barri yn dilyn llwyddiant y cynllun ym Mhenarth, Dinas Powys a Sili.

Trwy gais llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gwnaeth y Cyngor ailddechrau Clwb Beicio llwyddiannus Tŷ Iolo mewn partneriaeth â Pedal Power ym mis Mehefin 2023. Mae'r Clwb Beicio yn cynnig hyfforddiant beicio i blant 6-10 oed sy'n byw yn y Barri. Bydd yr arian yn talu am hyfforddiant, beiciau a helmedau i'w defnyddio a'u storio yn y parc.

Mae Tîm Gorfodi Cyngor Bro Morgannwg wedi bod yn defnyddio beic trydan i batrolio ardaloedd o'r Fro. Mae'r Adran Gynllunio hefyd wedi treialu beic trydan drwy brosiect E-Symud Sustrans ac wedi gwneud cais am arian i gael ei beic trydan ei hun. Bydd adrannau eraill y Cyngor yn cael eu hannog i ystyried defnyddio beiciau/beiciau cargo at ddefnydd gwaith.




Bydd cais yn cael ei wneud i'r Bwrdd Prosiect Sero er mwyn i'r Cyngor gyflawni achrediad Cyflogwr sy'n Hwyluso Beicio.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Sight Cymru, preswylwyr yn Longmeadow Court, Golau Caredig a Fforwm 50+ y Fro i drafod rhwystrau i gerdded. Mae'r Swyddog TLI hefyd wedi mynd i Gyfleuster Ieuencid V-Pod yn Sili i drafod llwybr arfaethedig o Sili i Benarth.

Mae ceisiadau grant drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Fframwaith Gwella'r Metro, Bargen Ddinesig Caerdydd ac ati i gyd yn cynnwys cynigion TLI er mwyn galluogi'r Cyngor i wneud y gorau o bob llwybr ariannu sydd ar gael.

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd ar gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (cyhoeddiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:



Enw'r Prif Weithredwr:

Robert Thomas

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru:

27.9.23